YSGOL BRO IDRIS

DIGWYDDIADAU SAFLE RHYD Y MAIN

Clwb Cybi

Bu'r Clwb Cybi yn llwyddiant ysgubol gyda pob Disgybl bron yn aros ar ôl ysgol yn wythnosol i gynnal gweithgareddau amrywiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar ddechrau pob tymor roedd y disgyblion yn cynnig syniadau.

Chwarae cardiau… Coginio… Gwneud Roced…

Disgo… Bake off… Celf… Hoci…

Yr ydym yn ymfalchio yn y cyswllt agos sydd gennym a'r gymuned a roeddem yn falch o gael gymryd rhan eleni mewn cyfarfod bach llwyddiannus. Bu llawer o'r disgyblion yn brysur yn paratoi ar gyfer y gwaith cartref a'r eitemau llwyfan. Hoffem ddiolch i Mrs Olwen Jones a Mrs Nia Evans am ddod i'n cynorthwyo i baratoi gwaith llaw arbennig ar gyfer y cyfarfod a'r Urdd.

Cawsom gyfarfod Diolchgarwch hyfryd yn y capel dan ofal Iwan Llywelyn Jones, bore coffi er budd Mc Millan a chyngerdd Diwrnod barddoniaeth. Diolch i'r rhieni a thrigolion y pentref a ddaeth i'n cefnogi.

Y **Cyngor Ysgol** wedi cynllunio siacedi Bydis Buarth (Cynan, Megan, Nia a Beca)

Y **Cyngor Lles** (Rhianna a Tesni) yn trefnu Gemau Buarth gyda plant y Cyfnod Sylfaen.

Pennaeth Safle – Doris Parry

Athro CA2 – Eben Jones

Cymhorthyddion –Ann Jones a Gwenan Owen

Gogyddes – Bethan Jones

Gofalwraig – Gwenan Richards